



Ordinhad 12

Y Cyngor: Ethol Aelod o'r Staff Anacademaidd

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020

ORDINHAD 12

Y CYNGOR: ETHOL AELOD O'R STAFF ANACADEMAIDD

1. Aelod o'r Staff Anacademaidd

Etholir un aelod i'r Cyngor gan ac o blith aelodau Staff heblaw y Staff Academaidd, yn unol â'r weithdrefn ganlynol:

1. Trefnir yr etholiadau ar gyfer aelod o'r staff anacademaidd i wasanaethu ar y Cyngor gan Clerc y Cyngor.
2. Anfonir rhybudd o etholiad at holl aelodau'r staff nad ydynt yn aelodau o'r Staff Academaidd yn ôl diffiniad Ystatud 1, ac y mae eu perthynas sylweddol gyda'r Brifysgol fel gweithwyr (a elwir o hyn ymlaen yn "staff anacademaidd"), fydd yn cynnwys gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau o fewn cyfnod rhesymol.
3. Bydd aelodau'r staff anacademaidd sydd wedi cael eu cyflogi'n barhaol gan y Brifysgol am ddim llai na deuddeg mis ar y diwrnod pan anfonir y rhybudd o etholiad ar dir i'w henwebu i'w hethol. I fod yn ddilys, rhaid i bob enwebiad gael ei gynnig a'i eilio yn ysgrifenedig gan o leiaf ddau aelod arall o'r staff anacademaidd, a rhaid dangos bod y sawl a enwebir yn cytuno.
4. Os ceir mwy nag un enwebiad, cynhelir etholiad trwy bleidlais pob aelod o'r staff anacademaidd, pa beth bynnag hyd eu cytundeb neu wasanaeth. Defnyddir dull y bleidlais amgen drosglwyddadwy ar gyfer yr etholiad.
5. Lle y cynhelir y bleidlais yn bennaf drwy ddull electronig, bydd Clerc y Cyngor yn gwneud darpariaeth i aelodau o'r staff anacademaidd ofyn am bapur pleidleisio.
6. Bydd Clerc y Cyngor yn penodi dau archwilydd ar gyfer etholiad trwy bleidlais, a bydd o leiaf un ohonynt yn aelod o'r Staff Academaidd neu'n Aelod Annibynnol o'r Cyngor. Gwahoddir un cynrychiolydd o bob Undeb Llafur a gydnabyddir i fod yn arsylwyr wrth gyfri'r papurau pleidleisio a dilysu unrhyw bleidleisiau fydd yn cael eu bwrw'n electronig.

2. Cyfnod a'r posibilrwydd o ailethol

1. Tair blynedd fydd cyfnod yr aelod a benodir, gan ddechrau ar yr 1 Awst canlynol.
2. Bydd aelod y mae ei gyfnod yn dod i ben ar dir i'w ailethol am un cyfnod pellach. Os yw person wedi gwasanaethu am uchafswm y cyfnodau a ganiateir, ni fydd ar dir i'w ailethol ymhellach yn aelod o staff anacademaidd ar y Cyngor tan i gyfnod o dair blynedd fynd heibio.
3. Fel arfer, llenwir lle gwag dros-dro am weddill cyfnod yr aelod sy'n peidio â bod yn aelod. Anfonir rhybudd o etholiad at yr holl staff anacademaidd, gan wahodd enwebiadau yn unol â pharagraff 1.3 uchod, erbyn dyddiad rhagnodedig. Yn achos etholiad cystadleuol i lenwi lle dros-dro, daw'r weithdrefn a ddiffinnir ym mharagraffau 1.4 i 1.6 uchod i rym.
4. Os bydd aelod a etholir i'r Cyngor yn unol â'r ddarpariaeth hon yn peidio â bod yn aelod o'r staff anacademaidd, daw'r aelodaeth i ben ar unwaith.